WALES AUDIT OFFICE
SWYDDFA ARCHWILIO CYMRU

Archwilydd Cyffredinol Cymru
Auditor General for Wales

# Cynllunio Arbedion – **Cyngor Sir Ddinbych**

Blwyddyn archwilio: 2016-17

Dyddiad cyhoeddi: Mawrth 2017

Cyfeirnod y ddogfen: 659A2016

Paratowyd y ddogfen hon fel rhan o waith a gyflawnir yn unol â swyddogaethau statudol.

Os gwneir cais am wybodaeth y gallai'r ddogfen hon fod yn berthnasol iddi, tynnir sylw at y Cod Ymarfer a gyhoeddwyd o dan adran 45 o Ddeddf Rhyddid Gwybodaeth 2000. Mae Cod adran 45 yn nodi'r arfer a ddisgwylir gan awdurdodau cyhoeddus wrth ymdrin â cheisiadau, yn cynnwys ymgynghori â thrydydd partïon perthnasol. Mewn perthynas â'r ddogfen hon, mae Archwilydd Cyffredinol Cymru a Swyddfa Archwilio Cymru yn drydydd partïon perthnasol. Dylid anfon unrhyw ymholiadau ynglŷn â datgelu neu ailddefnyddio'r ddogfen hon i Swyddfa Archwilio Cymru yn swyddog.gwybodaeth@archwilio.cymru.

Roedd y tîm a gyflawnodd y gwaith yn cynnwys Charlotte Owen a Jeremy Evans, o dan gyfarwyddyd Alan Morris

# Cynnwys

Mae gan y Cyngor ddull cynllunio arbedion effeithiol ac ystyriol sy'n cefnogi cydnerthedd ariannol yn y dyfodol.


Adroddiad cryno

Crynodeb 4

Cynigion ar gyfer gwella 6

Adroddiad manwl

Mae gan y Cyngor ddull cynllunio arbedion effeithiol ac ystyriol sy'n cefnogi cydnerthedd ariannol yn y dyfodol 7

Y cyd-destun lleol 7

Arbedion a gyflawnwyd yn 2015-16 9

Mae'r Cyngor wedi nodi ei fod wedi cyflawni 91% o'i arbedion arfaethedig ar gyfer 2015-16 yn ystod y flwyddyn a gall ddangos bod arbedion unigol wedi cael eu cyflawni 9

Trefniadau cynllunio ariannol 10

Mae gan y Cyngor fframwaith cynllunio ariannol effeithiol ond mae angen iddo ddatblygu dull corfforaethol o gynhyrchu incwm o hyd 10

Cynllun Arbedion 2016-17

Mae'r Cyngor yn rhagweld ei fod yn debygol o gyrraedd 70% o'i dargedau arbed ar gyfer 2016-17 yn ystod y flwyddyn ac mae trefniadau monitro priodol ar waith, mae cynigion arbedion wrth gefn wedi'u paratoi rhag ofn y bydd eu hangen 12

# Adroddiad cryno

## Crynodeb

1 Mae systemau rheoli ariannol da yn hanfodol er mwyn gwarchod arian cyhoeddus yn effeithiol a darparu gwasanaethau cyhoeddus effeithlon yn barhaus. Oherwydd yr hinsawdd ariannol bresennol a'r setliadau is i lywodraeth leol mae gwaith cynllunio ariannol da, ynghyd â chynlluniau arbedion tra ystyriol, yn hanfodol er mwyn sicrhau cydnerthedd ariannol.

2 Mae'r adolygiad hwn yn canolbwyntio ar ateb y cwestiwn canlynol: **A yw trefniadau cynllunio arbedion ariannol y cyngor yn cefnogi cydnerthedd ariannol?**

3 Mae gwaith cynllunio ariannol da:

- yn helpu cynghorau i wneud y penderfyniadau cywir ar gyfer y byrdymor, y tymor canolig a'r hirdymor;
- yn helpu cynghorau i ddarparu gwasanaethau i gyflawni rhwymedigaethau statudol a diwallu anghenion cymunedau lleol;
- yn hanfodol er mwyn sicrhau systemau llywodraethu corfforaethol da;
- yn ymwneud cymaint â rheoli perfformiad a chyflawni amcanion strategol ag â rheoli arian;
- yn sail i ansawdd gwasanaethau a gwella gwasanaethau;
- yn sail i atebolrwydd i randdeiliaid am warchod a defnyddio adnoddau; ac
- yn ddisgyblaeth reoli allweddol.

4 Mae gwaith cynllunio ariannol ar gyfer y tymor canolig i'r hirdymor yn cynnwys deall y galw yn y dyfodol, asesu effaith newidiadau tebygol, adolygu'r bylchau rhwng anghenion ariannu ac incwm posibl a, lle y bo angen, ddatblygu strategaethau arbedion priodol.

5 Dylai blaenoriaethau strategol cyngor a'i iechyd ariannol fod yn sail ar gyfer penderfynu beth sy'n ymarferol. Gall strategaethau ariannol hirdymor a chynlluniau ariannol tymor canolig tra ystyriol a manwl sicrhau y caiff blaenoriaethau strategol eu cyflawni drwy alluogi awdurdod i wneud dewisiadau ariannol priodol. I'r gwrthwyneb, mae gwaith cynllunio cyllidebol blynyddol byrdymor yn annog awdurdodau i fabwysiadu dull gweithredu cynyddrannol a lywir gan brosesau sy'n rhy anhyblyg mewn cyfnod o newid allanol cyflym.

6 Caiff cynghorau tua 80% o'u hincwm net oddi wrth Lywodraeth Cymru, dim ond 4-5 mis cyn dechrau'r flwyddyn ariannol y daw'r union ffigur yn hysbys. Er bod hyn yn effeithio ar waith cynllunio ariannol, gall cynghorau ddefnyddio amrywiaeth o wybodaeth i ragweld newidiadau mewn amgylchiadau, pennu blaenoriaethau, gwneud dewisiadau a rheoli'r modd y darperir gwasanaethau. Gallant gyfrifo faint o arian y byddai ei angen arnynt er mwyn darparu gwasanaethau (yn ôl prisiau cyfredol neu brisiau yn y dyfodol) ac ystyried senarios amgen o ran incwm a gwariant er mwyn nodi bylchau a pharatoi ar gyfer y dyfodol drwy ymchwilio i ddulliau gweithredu gwahanol.

7 Yn ystod 2015-16 cyflawnodd Swyddfa Archwilio Cymru waith ym mhob cyngor er mwyn asesu digonolrwydd ei drefniadau cynllunio ariannol, rheolaeth ariannol a llywodraethu ariannol. Cyflwynwyd adroddiadau lleol a chyhoeddwyd adroddiad cryno cenedlaethol ym mis Awst 2016. Daeth yr adroddiad cryno cenedlaethol i'r casgliad bod **awdurdodau lleol yn gwella eu trefniadau cynllunio strategol ond yn cael anhawster yn datblygu a darparu'r arbedion a'r newidiadau i wasanaethau ar y cyflymder sy'n ofynnol i sicrhau cydnerthedd ariannol yn y dyfodol.**

8 Yn yr asesiad hwn, a gynhaliwyd yn ystod y cyfnod rhwng mis Mehefin a mis Medi 2016, rydym wedi canolbwyntio ar waith i nodi arbedion, cynllunio ar eu cyfer a'u cyflawni. Ystyriwyd i ba raddau y cyflawnodd Cyngor Sir Ddinbych (y Cyngor) ei gynlluniau arbedion ar gyfer 2015-16, ansawdd ei gynlluniau ariannol tymor canolig a chadernid ei gynlluniau arbedion ar gyfer 2016-17.

9 Ystyriwyd tri chynnig ar gyfer gwneud arbedion yn 2016-17 ac ystyriwyd y tybiaethau sy'n sail iddynt, ac a oes systemau digonol i sicrhau y gellir eu cyflawni yn unol â'r amserlen arfaethedig.

10 Yn dilyn y gwaith a wnaed yn 2015-16 aethom ati i nodi'r hyn a wnaeth y Cyngor o ganlyniad i'r hyn a ddysgodd a sut y mae wedi ymateb i'n cynigion ar gyfer gwella mewn perthynas â chynllunio ariannol os gwnaethom unrhyw rai.

11 Yn yr adroddiad hwn rydym wedi disgrifio rhai o nodweddion allweddol cynllunio ariannol effeithiol – Nodweddion cynllunio ariannol da. Mae archwilwyr wedi defnyddio'r rhain a ffactorau eraill i lunio barn gytbwys ar effeithiolrwydd trefniadau cynllunio ariannol cyngor a gwerthuso gallu cyngor i gyflawni ei Gynllun Ariannol Tymor Canolig a'i arbedion arfaethedig.

12 Yn ein hadolygiad yn 2015-16 daethom i'r casgliad **bod gan y Cyngor drefniadau rheoli ariannol priodol ond bod angen iddo atgyfnerthu ei ddull o gynhyrchu incwm**.

13 Yn yr adolygiad hwn daethom i'r casgliad **bod gan y Cyngor ddull cynllunio arbedion effeithiol ac ystyriol sy'n cefnogi cydnerthedd ariannol yn y dyfodol**.

# Cynigion ar gyfer gwella

Arddangosyn 1: cynigion ar gyfer gwella

Byddai'n anarferol pe na baem yn dod o hyd i bethau y gellir eu gwella ac, os byddwn yn gwneud hynny,
gall yr Archwilydd Cyffredinol gymryd nifer o gamau. Yn yr achos hwn mae cynnig ar gyfer gwella wedi'i wneud a byddem yn disgwyl i'r Cyngor wneud rhywbeth yn ei gylch.

| Cynigion ar gyfer gwella | |
|---|---|
| C1 | Atgyfnerthu'r trefniadau cynllunio ariannol drwy wneud y canlynol:<br>• datblygu Polisi Cynhyrchu Incwm/Codi Tâl; ac<br>• asesu statws risg arbedion yn ffurfiol yn erbyn y tebygolrwydd y cânt eu cyflawni a nodi camau lliniaru ar gyfer y rhai y nodir bod ganddynt statws risg uchel. |

# Adroddiad manwl

## Mae gan y Cyngor ddull cynllunio arbedion effeithiol ac ystyriol sy'n cefnogi cydnerthedd ariannol yn y dyfodol

### Cyd-destun

14 Ers 2010, mae Llywodraeth y DU wedi lleihau ei gwariant ar wasanaethau cyhoeddus fel rhan o'i chynllun i leihau'r diffyg. Yn sgil y toriadau i'w chyllideb, bu'n rhaid i Lywodraeth Cymru wneud dewisiadau anodd o ran sut i ddosbarthu'r toriadau ariannol hynny rhwng y gwasanaethau cyhoeddus datganoledig. O ganlyniad, mae'r cyllid craidd y mae Llywodraeth Cymru yn ei roi i gynghorau lleol wedi gostwng bob blwyddyn. Hyd yma, mae'r rhan fwyaf o gynghorau lleol wedi llwyddo i leihau eu gwariant a mantoli eu cyllidebau, ond mae'r gostyngiadau blynyddol yn debygol o barhau ar yr un lefel. Dengys ein dadansoddiad, rhwng 2013-14 a 2016-17, fod gostyngiad o £483 miliwn (10.9%) wedi bod yn y cyllid craidd hwn mewn termau real[1].

15 Mae'n bosibl y bydd effaith y penderfyniad i adael yr Undeb Ewropeaidd yn fygythiad i gynghorau lleol a'r sector cyhoeddus ehangach yng Nghymru. Yn syth ar ôl y penderfyniad cafwyd ymateb yn y marchnadoedd ariannol a arweiniodd at anwadalrwydd, er enghraifft, ym mhrisiau cyfranddaliadau, cyfraddau cyfnewid arian cyfred, prisiau olew ac arenillion bondiau, ac mae'r DU yn parhau i wynebu cryn dipyn o ansicrwydd yn ogystal â chwestiynau pwysig am gydberthnasau economaidd a masnachol ag Ewrop yn y dyfodol. Mae Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru (CLlLC) wedi mynegi pryderon ynghylch goblygiadau canlyniad refferendwm yr Undeb Ewropeaidd, gan ei alw'n newid enfawr ym mholisi cyhoeddus y DU[2] yn enwedig am mai cynghorau lleol gyda'i gilydd yw'r cyflogwr mwyaf yng Nghymru ac am eu bod darparu llawer o wasanaethau cyhoeddus pwysig.

[1] Mae cymharu cyllid craidd (Cyllid Allanol Cyfun) yn ystod y cyfnod rhwng 2013-14 a 2016-17 yn gymhleth am ddau brif reswm. Yn gyntaf, mae Llywodraeth Cymru wedi ymgorffori grantiau a roddid ar wahân yn flaenorol mewn cyllid craidd. Er bod y broses hon o 'ddadneilltuo' grantiau yn arwain at gynnydd mewn cyllid craidd, nid yw o reidrwydd yn gynnydd net mewn cyllid. Mae gwerth net grantiau a ymgorfforwyd mewn cyllid craidd ers 2013-14 tua £76 miliwn mewn termau real (wedi'i addasu ar gyfer chwyddiant).


[2] Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru, **Pryder am effaith y refferendwm ar wasanaethau**, 24 Mehefin 2016

16 Er bod yr arian a ddarperir gan Lywodraeth Cymru wedi gostwng yn gyffredinol, bu disgwyl i gynghorau ddiogelu ysgolion a gofal cymdeithasol rhag y rhan fwyaf o'r pwysau. Mae gofal cymdeithasol yn arbennig wedi'i chael hi'n anodd hyd yn oed gyda'r diogelwch hwn am fod newidiadau demograffig wedi cynyddu'r galw am wasanaethau, er enghraifft. Fodd bynnag, golyga hyn mai gwasanaethau eraill sydd wedi wynebu'r rhan fwyaf o'r toriadau ac mae eu cyllidebau wedi gostwng 30% neu fwy mewn termau real ers 2013-14.

17 Cafodd y Cyngor gymorth ariannol gwerth £140 miliwn gan Lywodraeth Cymru yn 2016-17. Mae hyn yn cyfateb i £1,455 fesul unigolyn yn y sir, sy'n uwch na chyfartaledd Cymru ond yn ostyngiad o 10.9%[3] y pen mewn termau real ers 2013-14. Mae materion allweddol eraill sy'n effeithio ar sefyllfa ariannol gyffredinol unrhyw gyngor, er enghraifft sylfaen gyffredinol y Dreth Gyngor, y gallu i gynhyrchu incwm yn lleol a'r lefelau amddifadedd.

## Arddangosyn 2: cymorth ariannol gan Lywodraeth Cymru yn 2016-17

Dengys y graff isod faint o arian y mae pob cyngor yn ei gael fesul pen o'r boblogaeth gan Lywodraeth Cymru.




Ffynhonnell: StatsCymru (www.statscymru.llyw.cymru)

[3] Mae'r ffigur ar gyfer y gostyngiad canrannol y pen yn amrywio o'r gostyngiad mewn cyllid craidd yn 2013-14 oherwydd yr amrywio yn y boblogaeth a welwyd yn ystod yr un cyfnod.

# Arbedion a gyflawnwyd yn 2015-16

## Mae'r Cyngor wedi nodi ei fod wedi cyflawni 91% o'i arbedion arfaethedig ar gyfer 2015-16 yn ystod y flwyddyn a gall ddangos bod arbedion unigol wedi cael eu cyflawni

### Nodweddion cynllunio ariannol da

18 Dylai fod gan gynghorau sydd â hanes da o gyflawni'r rhan fwyaf o arbedion arfaethedig yn ystod y flwyddyn gynlluniau arbedion a chynlluniau cyflawni datblygedig ar waith a ategir gan brosesau monitro cadarn. Nid oes rhaid i'r cynghorau hyn gau'r bwlch yn barhaus o flwyddyn i flwyddyn, drwy nodi arbedion amgen, defnyddio cyllid untro heb ei gynllunio o gronfeydd wrth gefn a glustnodwyd, cronfeydd cyffredinol wrth gefn, cronfeydd wrth gefn nac incwm heb ei gynllunio damweiniol a dderbyniwyd yn ystod y flwyddyn.

### Yr hyn a nodwyd gennym

19 Yn ein hadolygiad yn 2015-16 canfuwyd bod y Cyngor wedi cyflawni tua 99% o'i arbedion arfaethedig yn 2014-15.

20 Yn ein hadolygiad yn 2016-17 canfuwyd bod cyfran yr arbedion arfaethedig a gyflawnwyd yn is o gymharu â blynyddoedd blaenorol. Nodir ein canfyddiadau isod.

21 Gwelwyd gorwariant net o £25,000 ar gyllideb y Cyngor ar gyfer 2015-16 a llwyddwyd i gyflawni 91% o'r arbedion arfaethedig. Er y gwelwyd tanwariant net cyfunol o £1.6 miliwn ar gyllidebau gwasanaethau a chorfforaethol, bu gorwariant sylweddol o bron £2 filiwn ar gyllidebau dirprwyedig i ysgolion. Defnyddiwyd cronfeydd wrth gefn ar gyfer ysgolion i ariannu'r gorwariant ar ysgolion, gan alluogi'r Cyngor i drosglwyddo'r tanwariant ar gyllidebau gwasanaethau a chorfforaethol i gronfeydd wrth gefn a glustnodwyd.

22 Roedd strategaeth gyllideb arfaethedig y Cyngor ar gyfer 2015-16 yn cynnwys defnyddio £500,000 o falansau cyffredinol. Fodd bynnag, ni fu'n rhaid i'r Cyngor ddefnyddio'r balansau hyn ac, yn hytrach, cânt eu defnyddio fel rhan o'r strategaeth gyllideb arfaethedig ar gyfer 2017-18.

23 Cyflawnodd y Cyngor 91% o'i gynlluniau arbedion ar gyfer 2015-16 ac mae'n disgwyl cyflawni'r rhan fwyaf o'r 9% sy'n weddill yn 2016-17. Caiff cynlluniau arbedion eu hymgorffori yn y gyllideb sylfaenol ac maent yn rhan o'r broses monitro cyllidebau. Mae adroddiadau monitro cyllidebau rheolaidd a gyflwynir i'r Cabinet yn cynnwys adran ar yr arbedion a gyflawnir ac, yn achos meysydd lle nodir problemau wrth geisio cyflawni arbedion, rhoddir mwy o naratif.

24 Mae proses y Cyngor o nodi arbedion yn datblygu ac, ar gyfer cynllun 2015-16, mabwysiadwyd dull newydd a oedd yn rhoi mwy o rôl i'r aelodau. Nododd y rhaglen Rhyddid a Hyblygrwydd arbedion ar gyfer cyfnod o ddwy flynedd drwy

ganolbwyntio ar yr hyn y mae gwasanaeth yn ei wneud, dadansoddi ei wariant, a nodi p'un a yw'r gwasanaeth a ddarperir yn statudol, yn cyd-fynd ag un o'r blaenoriaethau corfforaethol neu'n ddewisol.

# Trefniadau cynllunio ariannol

## Mae gan y Cyngor fframwaith cynllunio ariannol effeithiol ond mae angen iddo ddatblygu dull corfforaethol o gynhyrchu incwm o hyd

### Nodweddion cynllunio ariannol da

25 Mae'r Cynllun Ariannol Tymor Canolig yn elfen allweddol o fframwaith cynllunio effeithiol ac integredig. Dylai gwaith cynllunio ariannol tymor canolig a gwaith cyllidebu blynyddol da adlewyrchu amcanion a blaenoriaethau strategol y cyngor ar gyfer y flwyddyn, ac yn y tymor hwy. Fel arfer mae Cynlluniau Ariannol Tymor Canolig yn cwmpasu cyfnod o rhwng tair a phum mlynedd a dylent nodi sut y caiff adnoddau eu neilltuo i ddarparu gwasanaethau a chyflawni blaenoriaethau'r cyngor. Dylid ystyried yr effaith ar ddinasyddion a rhanddeiliaid eraill hefyd.

26 Mae Cynlluniau Ariannol Tymor Canolig da yn cynnwys ystyriaeth o'r risgiau ariannol allweddol ynghyd â sut i'w lliniaru. Mae'n rhaid i gynghorau lunio tybiaethau ynghylch chwyddiant, lefelau incwm, demograffeg, y galw am wasanaethau yn y dyfodol a chostau darparu gwasanaethau, ac mae angen seilio'r rhain ar ragfynegiadau rhesymol. Dylai'r cyngor hefyd ddefnyddio gwaith modelu ariannol i asesu'r effeithiau tebygol ar gynlluniau ariannol ac arbedion gofynnol ar gyfer amrywiaeth o wahanol senarios a risgiau. Dylai'r Cynllun Ariannol Tymor Canolig gael ei adolygu'n aml a'i ddiweddaru er mwyn adlewyrchu newidiadau o ran tybiaethau a risgiau.

27 Dylai cynghorau weithredu o fewn lefel o gronfeydd wrth gefn a balansau (gan gynnwys cronfeydd wrth gefn a glustnodwyd a balans y gronfa gyffredinol), a gymeradwywyd gan yr Aelodau, ac sy'n briodol i'r risgiau strategol, gweithredol ac ariannol y maent yn eu hwynebu. Dylai cynghorau gynnwys manylion am y ffordd y caiff cronfeydd wrth gefn eu defnyddio dros gyfnod y Cynllun Ariannol Tymor Canolig.

28 Mae'n rhaid i'r cyngor ddangos ei fod yn deall ei ffynonellau incwm a'r risgiau sy'n gysylltiedig â hwy a'i fod wedi adolygu ei ymagwedd tuag at ffioedd a thaliadau, am ei wasanaethau, er mwyn sicrhau gwerth am arian.

## Yr hyn a nodwyd gennym

29 Yn ein hadolygiad yn 2015-16, canfuwyd bod gan y Cyngor reolaethau effeithiol ar waith i sicrhau bod ei brosesau a'i reolaeth ariannol yn gadarn, ond bod angen iddo atgyfnerthu ei ddull o gynhyrchu incwm.

30 Yn ein hadolygiad yn 2016-17, canfuwyd bod gan y Cyngor fframwaith cynllunio ariannol effeithiol o hyd ond nad oes ganddo bolisi cynhyrchu incwm ffurfiol eto.

31 Mae cysylltiadau da rhwng prosesau cynllunio corfforaethol a phrosesau cynllunio ariannol tymor canolig y Cyngor. Mae'r Cynllun Corfforaethol yn nodi blaenoriaethau'r Cyngor a sut y cânt eu hariannu. Mae Cynllun Ariannol Tymor Canolig y Cyngor yn cysylltu â chynlluniau a blaenoriaethau gwasanaethau a chorfforaethol a gaiff eu pennu wrth gynllunio cyllidebau.

32 Mae'r Cynllun Ariannol Tymor Canolig yn dangos rhai o'r ffyrdd y mae'r Cyngor yn ystyried effaith hirdymor ei benderfyniadau cyllidebol, ee asesiadau effaith a monitro effaith penderfyniadau cyllidebol ar ôl iddynt gael eu rhoi ar waith.

33 Mae Cynllun Ariannol Tymor Canolig y Cyngor yn gyfredol. Bob hydref, mae'r Cabinet yn cymeradwyo diweddariad ffurfiol i'r Cynllun. Caiff tybiaethau cynllunio ariannol tymor canolig eu hadolygu a'u cyfathrebu'n rheolaidd er mwyn ystyried newidiadau mewn newidynnau allweddol a materion eraill sy'n dod i'r amlwg.

34 Mae'r Cynllun Ariannol Tymor Canolig yn cwmpasu cyfnod o bedair blynedd. Mae rhagamcanion y Cynllun yn gynhwysfawr, yn cynnwys dadansoddiad o sensitifrwydd ac wedi'u modelu ar amrywiaeth o senarios. Mae'r Cynllun Ariannol Tymor Canolig ar gyfer y cyfnod rhwng 2017-18 a 2019-20 yn nodi bwlch cyllidebol o £26 miliwn. Mae'r Cyngor wedi nodi arbedion dangosol o £3.6 miliwn dros y cyfnod ac mae'n bwriadu defnyddio £3.5 miliwn o gronfeydd cyffredinol wrth gefn, gan adael bwlch cyllidebol o £19 miliwn.

35 Mae'r Cynllun Ariannol Tymor Canolig yn cynnwys rhai arbedion dangosol ar gyfer gweddill tymor y Cynllun, ond nid yw'r Cyngor wedi nodi'n llawn eto sut y bydd yn cau'r bwlch cyllidebol a ragwelir yn ei gyfanrwydd.

36 Mae'r Cynllun Ariannol Tymor Canolig hefyd yn cael ei ategu gan dybiaethau rhesymol a phriodol ar gyfer newidynnau allweddol megis dyfarniadau cyflog, chwyddiant prisiau, lefelau ariannu a lefelau treth gyngor. Mae effaith newidiadau demograffig, newidiadau o ran galw ac ymrwymiadau hysbys hefyd yn cael ei hasesu.

37 Ar ddiwedd 2015-16, roedd gan y Cyngor tua £7.6 miliwn fel balans gweithredol yn ei gronfa gyffredinol wrth gefn. Caiff cronfeydd wrth gefn a balansau eu hadolygu'n flynyddol wrth bennu cyllidebau ac mae'r adroddiad blynyddol ar y gyllideb a'r Cynllun Ariannol Tymor Canolig yn nodi sut y bwriedir defnyddio cronfeydd wrth gefn yn ystod tymor y Cynllun Ariannol Tymor Canolig.

38 Nid oes gan y Cyngor bolisi annibynnol ar gronfeydd wrth gefn ond mae ei brotocol o ran cronfeydd wrth gefn wedi'i nodi'n glir yn ei Reoliadau Ariannol a chaiff cronfeydd wrth gefn eu hadolygu'n rheolaidd. Mae strategaeth gyllideb y Cyngor ers 2015-16 wedi cynnwys defnydd arfaethedig o falansau cyffredinol; ni ddefnyddiodd y Cyngor yr arian ychwanegol yn 2015-16 ac, yn hytrach, bydd yn

defnyddio'r balansau hyn nas defnyddiwyd fel rhan o'i strategaeth ar gyfer cyllideb 2017-18. Yn ystod 2015-16, sefydlodd y Cyngor gronfa wrth gefn o £1.5 miliwn er mwyn mantoli cyllidebau. Mae bron £500,000 o'r gronfa wrth gefn hon ar gael i liniaru unrhyw oedi wrth gyflawni arbedion arfaethedig yn 2016-17.

39 Fel y nodwyd yn 2015-16, nid oes gan y Cyngor bolisi corfforaethol ar gynhyrchu incwm a chodi tâl. Mae'r cyfrifoldeb am asesu a phennu tâl wedi'i ddatganoli i Benaethiaid Gwasanaeth ac er y caiff ffioedd a thaliadau eu hadolygu fel rhan o'r broses gyllidebol, gellid colli cyfleoedd os nad oes polisi corfforaethol ar waith. Mae'r Cyngor yn cymryd camau i sicrhau bod gwasanaethau'n gweithio mewn ffordd fwy cyson drwy gasglu data ar ffioedd a thaliadau fel rhan o'r broses ar gyfer cyllideb 2017-18.

40 Mae gan y Cyngor drefniadau cadarn i adrodd ar gynnydd yn erbyn y gyllideb, ond gellid atgyfnerthu adroddiadau cyllid misol drwy gynnwys diweddariadau ar y defnydd a wneir o gronfeydd wrth gefn a lefelau'r cronfeydd hynny. Byddai hyn yn golygu bod aelodau'n ymwybodol o lefelau cronfeydd wrth gefn ac yn rhoi cyfle iddynt eu herio, drwy gydol y flwyddyn.

# Cynllun Arbedion 2016-17

## Mae'r Cyngor yn rhagweld y bydd yn debygol o gyflawni 70% o'i dargedau arbed ar gyfer 2016-17 yn ystod y flwyddyn ac mae trefniadau monitro priodol ar waith, mae cynigion arbedion wrth gefn wedi'u paratoi rhag ofn y bydd eu hangen

### Nodweddion cynllunio ariannol da

41 Mae gan gynghorau sy'n cyflawni arbedion yn effeithiol gynlluniau arbedion tra ystyriol sy'n rhan o strategaethau arbedion tymor hwy a ategir gan gynlluniau arbedion a chyflawni unigol datblygedig sydd wedi'u costio'n llawn ac sy'n cyd-fynd â'r Cynllun Ariannol Tymor Canolig. Dylai cynigion ar gyfer gwneud arbedion fod yn rhai penodol a dylid cynnal asesiad risg ohonynt er mwyn nodi pa mor debygol ydyw y cânt eu cyflawni.

### Yr hyn a nodwyd gennym

42 Yn ein hadolygiad yn 2015-16, canfuwyd bod cynlluniau a threfniadau'r Cyngor ar gyfer cyflawni arbedion yn y dyfodol yn addas at y diben a'u bod yn cael eu rheoli'n effeithiol.

43 Yn ein hadolygiad yn 2016-17, canfuwyd bod canran yr arbedion sy'n debygol o gael eu cyflawni yn ystod y flwyddyn yn gostwng, sy'n awgrymu gwendid wrth asesu risgiau cyflawni, er bod trefniadau monitro yn parhau i fod yn gadarn. Mae gan y Cyngor gynigion amgen ar gyfer gwneud arbedion. Nodir ein canfyddiadau isod.

44 Mae'r Cyngor wedi llunio cynlluniau arbedion i gyflawni'r arbedion sydd eu hangen ar gyfer 2016-17 ac mae wedi rhannu ei gynlluniau arbedion wedi'u costio yn ostyngiadau effeithlonrwydd a gostyngiadau cyllidebol technegol nad ydynt yn effeithio ar wasanaethau na'r cyhoedd; dulliau cyflawni, comisiynu a chaffael amgen; newidiadau lefel gwasanaeth (gan gynnwys lleihau gwasanaeth neu dynnu gwasanaeth nôl); a chynnydd mewn incwm. Hyd yma, mae'r Cyngor wedi canolbwyntio ar arbedion effeithlonrwydd sy'n cyfyngu ar effaith toriadau ar ddefnyddwyr gwasanaethau. Mae'n gynyddol anodd nodi arbedion effeithlonrwydd ac felly bydd lefelau digonol o arbedion trawsnewidiol yn helpu'r Cyngor i ddatblygu dulliau cynaliadwy o ddarparu gwasanaethau sy'n cynhyrchu arbedion parhaus.

45 Mae'r adroddiad monitro ariannol diweddaraf i'r Cabinet yn rhagweld mai dim ond 70% o gynlluniau arbedion y Cyngor ar gyfer 2016-17 a gaiff eu cyflawni yn ystod y flwyddyn; mae 25% arall wedi'u gohirio i'w cyflawni yn 2017-18.

46 Ym mis Medi, cymeradwyodd y Cabinet gynnig i ddefnyddio cronfeydd wrth gefn a thanwariant ar y gyllideb gorfforaethol er mwyn lliniaru effaith arbedion y nodwyd eu bod wedi'u gohirio neu nad oedd modd eu cyflawni. Er bod gan y Cyngor ddigon o arian mewn cronfeydd wrth gefn ac yn y gyllideb gorfforaethol i ariannu'r diffyg mewn arbedion yn 2016-17, mae disgwyliad y gallai fynd i'r afael â'r diffyg drwy ddefnyddio tanwariant ar wasanaethau. Ymhellach, os oes angen, mae gan y Cyngor gynigion arbed amgen y gallai eu defnyddio yn lle'r arbedion arfaethedig gwreiddiol. Bydd y Cyngor yn penderfynu a oes angen iddo ddefnyddio unrhyw rai o'r cynigion arbed wrth i'r flwyddyn fynd rhagddi.

47 Caiff asesiad risg ei gynnal mewn perthynas â chynigion arbed y Cyngor wrth bennu cyllidebau ac fel rhan o drefniadau monitro yn ystod y flwyddyn. Er bod risgiau o ran cyflawni arbedion arfaethedig yn cael eu trafod wrth nodi a chymeradwyo arbedion, nid oes gweithdrefn ffurfiol ar gael i asesu statws risg cynlluniau arbed yn ôl pa mor ymarferol ydynt i'w cyflawni. Felly, mae lle i'r Cyngor atgyfnerthu ei ddull gweithredu drwy fabwysiadu proses asesu statws risg ffurfiol er mwyn nodi'r arbedion hynny lle mae'n wynebu'r risg fwyaf o'u gohirio neu beidio â'u cyflawni a chamau lliniaru cynaliadwy.

48 Cynhelir Asesiadau o'r Effaith ar Gydraddoldeb ar gyfer yr holl gynigion arbed sy'n effeithio ar ddinasyddion a rhanddeiliaid, ond mae ansawdd yr asesiadau hyn yn anghyson. Mae adnodd asesu effaith ar-lein newydd yn mynd i'r afael â dyletswyddau'r Cyngor o dan Ddeddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015. Mae'r Cyngor wedi atgyfnerthu ei brosesau ymhellach drwy asesu effaith cynigion arbed dethol ar y cyhoedd ar ôl iddynt gael eu rhoi ar waith.

49 Mae cynllun arbedion y Cyngor yn benodol gan restru prosiectau arbed unigol fesul maes gwasanaeth. Caiff y cynllun ei ategu gan gynlluniau sylfaenol, manylach.

50 Mae trefniadau monitro effeithiol ar waith i reoli arbedion. Mae adroddiadau misol i'r Cabinet yn nodi p'un a yw pob arbediad wedi'i gyflawni, yn mynd rhagddo, neu wedi'i ohirio neu heb ei gyflawni. Os na chaiff arbedion eu cyflawni yn ystod y flwyddyn, ceir darn naratif byr sy'n rhoi manylion y camau lliniaru arfaethedig.

51 Y tri chynnig i wneud arbedion yn 2016-17 a ystyriwyd gennym er mwyn profi'r tybiaethau sy'n sail iddynt ac a oes systemau digonol i sicrhau y gellir eu cyflawni yn unol â'r amserlen arfaethedig oedd:

- gwasanaeth teledu cylch cyfyng – £200,000 (lleihau'r gwasanaeth/tynnu'r gwasanaeth nôl);
- mwy o gyfranogwyr i'r Cynllun Gwastraff Gwyrdd – £75,000 (Cynhyrchu Incwm); a
- strategaeth safleoedd – £258,000 (Arbedion Effeithlonrwydd).

52 Ym mhob achos, nodwyd gennym fod arfarniadau o opsiynau wedi'u hategu gan dybiaethau rhesymol, bod i gynlluniau cyflawni amserlenni clir a bod y cynigion wedi'u hategu gan brosesau cymeradwyo ac ymgynghori priodol.
Mae arbedion y Strategaeth Safleoedd wedi'u gohirio ond mae'r Cyngor yn ffyddiog y caiff yr arbedion eu cyflawni'n llawn yn 2017-18.

Wales Audit Office
24 Cathedral Road
Cardiff CF11 9LJ

Tel: 029 2032 0500
Fax: 029 2032 0600
Textphone : 029 2032 0660

E-mail: info@audit.wales
Website: www.audit.wales

Swyddfa Archwilio Cymru
24 Heol y Gadeirlan
Caerdydd CF11 9LJ

Ffôn: 029 2032 0500
Ffacs: 029 2032 0600
Ffôn testun: 029 2032 0660

E-bost: post@archwilio.cymru
Gwefan: www.archwilio.cymru